

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 10 GORFFENAF 2025 AM 7.30YH

1. Yn bresennol: Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Janet Knott, Elfyn Williams, Meinir James, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 4 yn unig – William Lowe, Daniel Collins, Emer Sandham, Megan Roberts, Manon James a Daisy Banham.

Ymddiheuriadau: Y Cyng Nicola Jones, Shan Rees, Viv Davies, Eifion Jones, Jenny Jones, Carys Thomas a Rheinallt Jones

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Is-orsaf Llandyfaelog

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad ar y prosiect is-orsaf arfaethedig. Cadarnhawyd y byddai'r prosiect ar gyfer is-orsaf NGET 400kv ynghyd â 2 is-orsaf 132kv a adeiladwyd a'u gweithredu gan NGED a GreenGen. Byddai angen ceisiadau cynllunio eu hunain ar gyfer pob un. Byddai'r cyfnod ymgynghori presennol yn dod i ben ar 15^{fed} Gorffennaf 2025.

Roedd y Grid Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliadau helaeth ar y safle. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu ceisio ynghylch y cynigion tirlunio. Cadarnhawyd y byddai cysylltiad yn cael ei symud ymlaen â Phrifyrdd ac lechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y cynigion.

Rhagwelwyd y byddai'r camau nesaf fel a ganlyn:

- Ymgynghoriad cyn ymgeisio yn Hydref 2025;
- Cais Cynllunio ddechrau 2026;
- Dechrau'r Adeiladu yng Nghanol 2027;
- Dechrau'r Safle yn weithredol yn Hydref 2029.

Roedd y materion a godwyd gyda'r Grid Cenedlaethol yn cynnwys:

- Tirlunio a cloddiau, yr angen am goed aeddfed, yn enwedig ar y ffordd fynediad lle'r oedd yn ddealladwy byddai cloddiau yn cael eu tynnu i ffwrdd;
- Uchder disgwylidig unrhyw offer a fyddai'n cael ei osod (nodwyd yr uchder uchaf fel 15m);
- A ellid gosod yr is-orsaf gyda chloddio dyfnach i leihau gwelededd? Nodwyd bod y mater hwn yn fater i'w gydbwyso rhwng faint o waith sydd ei angen, cost ac effaith amgylcheddol;
- Materion prifyrdd, e.e. faint o draffig, lefel y traffig; cyfeiriad y traffig. Nodwyd bod y strategaeth drafnidiaeth yn cael ei datblygu;
- Atgyweiriadau i unrhyw ddifrod a achosir i ffyrdd gan faint y traffig;

- Lliniaru a monitro unrhyw effeithiau niweidiol tebygol ar iechyd trigolion. Darperir rhagor o wybodaeth am y mater hwn;
- Y strwythurau arfaethedig i'w creu ar y safle;
- Yr angen am ddiagramau a chynlluniau 3D i roi mwy o eglurder;
- Y posibilrwydd o greu Fforwm Cymunedol i godi pryderon;
- Sut y byddai Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn cael eu hystyried;
- Capasiti'r llinell uwchben bresennol sy'n rhedeg drwy'r safle ynghyd â chapasiti'r is-orsaf arfaethedig;
- Pryderon Diogelwch yn ymwneud â'r problemau diweddar gyda'r is-orsaf yn effeithio ar Faes Awyr Heathrow;
- Defnyddio'r ffordd fynediad newydd, cadarnhawyd y rhagwelwyd y byddai pob cynllun yn defnyddio'r ffordd fynediad;
- Effaith pe na bai ceisiadau is-orsaf eraill yn cael eu cymeradwyo;
- Trefniadau Budd i'r Gymuned, sut bydd yn cael ei ddosbarthu;
- Digonolrwydd y Gronfa Gymunedol arfaethedig.

Yn dilyn y cyfarfod, ystyriodd aelodau ymateb posibl i'r ymgynghoriad. Bydd y Clerc yn drafftio'r ymateb ac yn ei ddosbarthu i aelodau i'w gwblhau cyn ei gyflwyno i'r Grid Cenedlaethol.